# £30miliwn wedi'i ddyfarnu i 15 o brosiectau treftadaeth cyn ein penblwydd 30

09/10/2024



Gorsaf Tilbury Riverside.

Yn ein rownd ddiweddaraf o benderfyniadau ariannu, rydym wedi dyfarnu grantiau i drawsnewid porthladd hanesyddol, rhoi hwb i gynefin misglod perlog d?r croyw, achub tafarn, adfywio parc a mwy.

Rydym ychydig dros fis i ffwrdd o ddathlu ein pen-blwydd ni – a’r Loteri Genedlaethol – yn 30 oed ar 19 Tachwedd. Ond yn gyntaf, rydyn ni'n dathlu swp newydd o brosiectau treftadaeth a ariannwyd gennym ar draws y DU.

Byddant o fudd nid yn unig i dreftadaeth, ond i unigolion, cymunedau a'r amgylchedd. Gyda’i gilydd, bydd y 15 o brosiectau'n:

- creu 87 o swyddi a phrentisiaethau
- cefnogi dros 620 o gyfleoedd gwirfoddoli
- plannu mwy na 100,000 o goed
- ailddatblygu dros 1,000,000m sgwâr o dir, o dirweddau afon i dir cestyll

## Grantiau ar gyfer pobl a natur

Mae'r prosiectau rhyfeddol hyn yn dangos yr ehangder anhygoel o dreftadaeth y mae pobl yn ei gwerthfawrogi ac eisiau ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

*Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

The newly funded projects are:

Y prosiectau newydd eu hariannu yw:

**Parc Crystal Palace**, Llundain (dyfarniad o £4,696,649) a fydd yn adfer ei gerfluniau deinosor enwog ac yn adfywio 200 erw o fannau gwyrdd y parc.

**Gorsaf Tilbury Riverside**, Essex (£4,478,310) a fydd yn creu hyb cymunedol, gan gynnwys stiwdios artistiaid a chaffi, mewn hen adeilad gorsaf yn y porthladd lle dociodd yr Empire Windrush ym 1948.

**Project Tullie: Breaking Down Barriers**, Caerliwelydd (£4,453,582) a fydd yn trawsnewid Amgueddfa Tullie House yn hyb diwylliannol arloesol a chynaliadwy sy'n cynrychioli ei gymunedau lleol.

**Whose Hoo**, Swydd Gaint (£2,943,041) a fydd yn plannu coed a gwrychoedd llwyfen a all wrthsefyll clefydau, gan gynyddu bioamrywiaeth a darparu cyfleoedd cymdeithasol i’r gymuned.

**Ripon Museums: Inspiration for a Fairer Future**, Gogledd Swydd Efrog (£2,573,493) a fydd yn gwneud gwaith atgyweirio hanfodol i adeilad y tloty Fictoraidd ac yn gwella rheolaeth ar ei gasgliadau, sy'n adrodd hanes tlodi, trosedd, tegwch a chyfiawnder.



Ripon Museums: Inspiration for a Fairer Future.

**Reimagining and Revitalising Watford's Museum and Heritage Service**, Swydd Hertford (£2,454,347) a fydd yn cefnogi adleoli'r amgueddfa i Neuadd y Dref restredig Gradd II ar ei newydd wedd i ddiwallu anghenion cymunedau lleol yn well.

**Riverwoods: A Blueprint for Riparian Woodland Recovery**, ar draws Yr Alban (£1,834,114) a fydd yn gwella coetiroedd ac yn rhoi hwb i fioamrywiaeth mewn afonydd a nentydd i gynnal rhywogaethau gan gynnwys cregyn gleision ac eogiaid.


Riverwoods: A Blueprint for Riparian Woodland Recovery project. Llun gan: Jennifer Porteous.

**Downs to the Sea: Recovery & Resilience in Wetland Habitats**, Chichester (£1,693,187) a fydd yn adfer gwlypdiroedd a phyllau hanfodol, gan isafu effaith sychder a thoi hwb i fioamrywiaeth.

**Exmoor Pioneers: Past, Present and Future** (£1,227,803) a fydd yn cynnal y dirwedd leol, yn plannu coed, yn trefnu cloddfeydd cymunedol ac yn gwarchod treftadaeth fregus.

**Menter y Plu**, Llanystumdwy (£1,055,089) a fydd yn trawsnewid tafarn bentref 200 oed yn hyb cymunedol i fynd i’r afael ag unigedd cymdeithasol ac afiechyd meddwl.

**Catalyst Science Discovery Centre and Museum: The Synergy Project**, Swydd Gaer (£1,009,930) a fydd yn archwilio arwyddocâd treftadaeth y diwydiant cemegol lleol a'i ddylanwad ar y byd heddiw.

**Ail-ddychmygu Castell Margam**, Port Talbot (£900,030) a fydd yn adfer y plasty Gothig Tuduraidd, gan wella cynaladwyedd a hygyrchedd a chreu mannau cyhoeddus defnydd cymysg newydd.



Ail-ddychmygu Castell Margam. Llun gan: Robert Melen.

**Making Available the Heritage of All Saints**, Swydd Stafford (£558,268) a fydd yn gwarchod nifer o asedau treftadaeth yr eglwys gan gynnwys ffenestri gwydr lliw o'r 12fed ganrif.

**The Nerve Centre: Power Plants** Belfast (£255,172) a fydd yn defnyddio creadigrwydd i archwilio’r broses o gynhyrchu a defnyddio p?er, dirywiad rhywogaethau planhigion brodorol a bioamrywiaeth, a’r angen am ddiogelu ac atgyweirio ein treftadaeth naturiol.

**Reading, Writing, Restoration: Bushmills' Old School Project**, Gogledd Iwerddon (£29,000) a fydd yn atgyweirio ac yn ehangu adeilad yr ysgol i greu gofod cymunedol ac ymwelwyr newydd.

## Ehangder y dreftadaeth

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Mae'r prosiectau rhyfeddol hyn yn dangos yr ehangder anhygoel o dreftadaeth y mae pobl yn ei gwerthfawrogi ac eisiau ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

“Ni allaf aros am weld beth a ddaw yn y dyfodol wrth i ni weithio i gyflwyno ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a’i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.”

Ers 1994, rydym wedi dyfarnu mwy na £8.6 biliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i 47,000 o brosiectau treftadaeth ar draws y DU. Trwy ein Strategaeth Treftadaeth 2033, rydym yn disgwyl buddsoddi £3.6bn pellach dros y 10 mlynedd nesaf.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...

Leeds Town Hall.

**Sut rydym yn bwriadu buddsoddi dros £1biliwn rhwng 2023 a 2026**



**Sut mae ein hegwyddorion buddsoddi'n helpu treftadaeth?**

**Dewch i gwrdd â saith o bobl sydd wedi 'newid y gêm' ar draws treftadaeth, tir a natur**